# Hysbysiad i Forwyr

## Bae Caernarfon

## Cyngor i Gychod a Chyngor Diogelwch Cyffredinol

**Scottish Power Energy Networks a National Grid Electricity Transmission Plc**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad yr Hysbysiad:** | 04/08/2025 |
| **Rhif yr Hysbysiad:** | CG2_001 |
| **Cyhoeddwyd gan:** | Blackhall & Powis |
| **Yr Ardal Weithredu:** | Bae Caernarfon |
| *Mae'r cyfesurynnau ar gyfer y gweithgareddau wedi'u nodi isod.* | |

**Prosiect Cyswllt Gorllewinol 2**

Hysbysiad i forwyr: Bydd Fugro yn cynnal gwaith arolygu ar ran Cyswllt Gorllewinol 2 (CG2) ger y lan yn ardal Bae Caernarfon.

Mae Scottish Power Energy Networks a National Grid Electricity Transmission Plc yn cynnal Prosiect Cebl Tanfor CG2.

Bydd prosiect CG2 yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gyflawni targedau sero net Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Bydd yn gwella diogelwch ynni ac yn cynyddu capasiti'r DU yn sylweddol ar gyfer pŵer adnewyddadwy glân a gwyrdd.

Dangosir yr ardal waith sy'n berthnasol i'r Hysbysiad hwn i Forwyr (NtM) yn **Ffigur 1** a **Thabl 1**. Mae delwedd o'r cwch arolygu yn **Ffigur 2**, a manylion cyswllt yn **Nhablau 2, 3 a 4**.

**Disgrifiad o'r Arolwg**


Disgwylir i weithgareddau'r arolwg morol ar gyfer CG2 ddechrau ar 13/08/2025, yn yr ardal a ddangosir yn **Ffigur 1** isod.

Disgwylir i'r arolwg ger y lan gael ei gwblhau erbyn 12/10/2025, yn dibynnu ar y tywydd.

Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud ar y môr yn digwydd yn yr ardaloedd a ddangosir yn **Ffigur 1**, a rhoddir manylion y cyfesurynnau wedi'u diweddaru yn **Nhabl 1** isod. Mae'r gwaith ar y môr yn cynnwys arolwg geoffisegol manwl.

Bydd yr arolwg yn cynnwys systemau wedi'u gosod ar gorff y llong a systemau halio. Nid oes unrhyw waith ymwthiol wedi'i gynllunio.

## Ffigur 1: Ardal yr Arolwg




## Tabl 1: Cyfesurynnau

| Pwynt | Lledred | Hydred | Dwyreiniad | Gogleddiad |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 53° 5.714' N | 004° 33.073' W | 30U 396130 | 5883988 |
| 2 | 53° 4.907' N | 004° 30.024' W | 30U 399500 | 5882421 |
| 3 | 53° 4.907' N | 004° 30.024' W | 30U 399500 | 5882421 |
| 4 | 53° 4.517' N | 004° 22.081' W | 30U 408353 | 5881519 |
| 5 | 53° 4.606' N | 004° 20.213' W | 30U 410442 | 5881646 |
| 6 | 53° 2.827' N | 004° 20.548' W | 30U 410007 | 5878354 |
| 7 | 53° 1.855' N | 004° 21.602' W | 30U 408795 | 5876575 |
| 8 | 53° 4.701' N | 004° 30.117' W | 30U 399389 | 5882041 |

| 9 | 53° 4.755' N | 004° 30.117' W | 30U 399391 | 5882141 |
|---|---|---|---|---|
| 10 | 53° 5.565' N | 004° 33.18' W | 30U 396004 | 5883715 |

**Manylion y Cwch**

Mae'r gwaith arolygu morol ar gyfer CG2 yn cael ei wneud gan Fugro gyda chwch arolygu 'Fugro Valkyrie.'

**Ffigur 2: Disgrifiad o'r Cwch Arolygu**

| Cwch Arolygu – Fugro Valkyrie | | |
|---|---|---|
|   | **Arwydd Galw:** | **2BWA9** |
| | **MMSI:** | **235069806** |

**Tabl 2: Manylion Cyswllt y Cwch Arolygu a'r Cwch Cymorth**

| **ENW'R CWCH – Fugro Valkyrie** | |
|---|---|
| **Capten** | Giles Simmons |
| **Cyfeiriad E-bost y Cwch** | Master.valkyrie@fugro.com<br>Partychief.valkyrie@fugro.com |
| **Rhif Cyswllt y Cwch** | +44 7557 607751 |
| **Sianel VHF** | 16 |

**Swyddogion Cyswllt Pysgodfeydd**

Bydd Blackhall & Powis Ltd yn cydlynu'r cyswllt pysgota ar gyfer y gweithrediadau. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch pysgodfeydd masnachol, cysylltwch â Swyddogion Cyswllt Pysgota'r Cwmni:

**Tabl 3**

| Enw | Rhif Cyswllt | E-bost |
|---|---|---|
| **Tommy Finn** Swyddog Cyswllt Pysgota'r Cwmni | 07787 503119 | Tommy.Finn@blackhallpowis.com |
| **Douglas Brander** Swyddog Cyswllt Pysgodfeydd | 07307 195830 | Douglas.Brander@blackhallpowis.com |
| **Eva Purfit** Rheolwr Gweithrediadau | 07827 627464 | Eva.Purfit@blackhallpowis.com |

Bydd Cynrychiolydd y Diwydiannau Pysgota lleol hefyd ar gael i gysylltu â'r cychod a gweithrediadau pysgota yn ardal yr arolwg.

**Tabl 4**

| Enw | Rhif Cyswllt | E-bost |
|---|---|---|
| **Jason Thomas** | 07788 820635 | southquayshellfish@hotmail.co.uk |

**Cyngor Diogelwch Cyffredinol**

Bydd gallu'r cwch i symud yn gyfyngedig, a bydd yn arddangos goleuadau a siapiau priodol a ragnodir gan y Rheoliadau Rhyngwladol ar gyfer Atal Gwrthdrawiadau ar y Môr. Gofynnir i gychod eraill gadw o leiaf 500m oddi wrth y cwch arolygu yn ystod gweithrediadau morol, a phasio ar gyflymder diogel. Bydd Negeseuon Diogelwch Rheolaidd yn cael eu cyhoeddi ar Sianel 16 VHF a bydd y Sianel hon bob amser yn cael ei monitro gan y cwch. Bydd y cwch hefyd yn trosglwyddo Negeseuon System Adnabod Trawsyrru Awtomatig (AIS) yn rheolaidd

**Hysbysiad Cyfreithiol**

Dylid trin yr Hysbysiad hwn i Forwyr fel hysbysiad swyddogol o natur, hyd a lleoliad y gwaith sydd i fod i gael ei wneud. Yn ystod cyfnod yr hysbysiad hwn, gofynnwn i chi gynllunio eich gweithgareddau o amgylch ein gweithgareddau dros dro tymor byr.

Byddai unrhyw fethiant i symud offer neu fynediad i'r lleoliad a nodwyd mewn ffordd a fyddai'n beryglus yn torri eich dyletswyddau morwriaeth ddiogel fel y disgrifir yn y Confensiwn ar Reoliadau Rhyngwladol ar gyfer Atal Gwrthdrawiadau ar y Môr 1972 a/neu Ddeddf Llongau Masnach 1995 a gallai arwain at dynnu'r offer perthnasol. Gall methu â symud yr offer neu fynediad i'r lleoliad a nodwyd mewn ffordd a fyddai'n beryglus dorri dyletswydd gofal yn unol â chyfraith gyffredin, a methu â diogelu ceblau tanfor er mwyn i ddefnyddwyr gwely'r môr allu cydfodoli'n llwyddiannus.